**Atodiad 1**

# BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU

## Adroddiad Blynyddol 2023 – 2024




Gweld Rhywbeth, Dweud Rhywbeth

MAE DIOGELU YN FUSNES I BAWB

Mynegai:


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad: | 3 |
| | Amcanion y Byrddau Diogelu | 4 |
| 1. | Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru | 4 |
| 2. | Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol. | 6 |
| 3. | I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar. | 8 |
| 4. | Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy'n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd? | 11 |
| 5. | Unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau. | 12 |
| 6. | Cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn. | 12 |
| 7. | I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd. | 15 |
| 8. | Asesiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau. | 20 |
| 9. | Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y ddengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad | 22 |
| 10. | Y nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardaly Bwrdd Diogelu. | 26 |
| 11. | Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu. | 26 |
| 12. | Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu. | 27 |
| 13. | Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol. | 29 |
| 14. | Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu. | 30 |
| 15. | Enghraifft Arfer Da | 32 |

## Cyflwyniad gan Gadeiryddion y Byrddau Oedolion a Phlant:

Mae’n bleser gennym gyflwyno ar y cyd, Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu’r cynnydd yr ydym wedi’i wneud yn erbyn y canlyniadau a nodwyd gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) fel rhan o’n cyd-Gynllun Strategol Blynyddol ar gyfer 2023-24.

Mae ein penderfyniad a’n gwytnwch fel asiantaethau cyhoeddus atebol wedi’u profi i’r eithaf dan yr amgylchiadau mwyaf heriol a chymhleth. Fel rhanbarth, rydym wedi gallu cydnabod a gwerthfawrogi cryfder a manteision ymateb ar y cyd trwy waith partneriaeth rhagorol.

Mae Recriwtio a Chadw staff wedi effeithio ar bob asiantaeth yn y rhanbarth ar ôl y pandemig ac mae nifer o Staff Diogelu profiadol yn y rhanbarth wedi penderfynu symud oddi wrth arferion diogelu rheng flaen. Mae Ymarferwyr Diogelu yn parhau i dynnu sylw at gymhlethdod yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at bob asiantaeth.


Mae’r heriau digynsail hyn wedi dangos pwysigrwydd hollbwysig y Byrddau Diogelu Rhanbarthol o ran sicrhau ymateb aml-asiantaeth i heriau o ran diogelu plant ac oedolion mewn perygl.

Yn y flwyddyn nesaf, rydym yn parhau i ymrwymo i weithio gyda’n gilydd i fodloni anghenion y rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau a dysgu gwersi i hwyluso darparu gwasanaethau diogelu aml-asiantaeth effeithiol, cydnerth, ac o ansawdd uchel yn y dyfodol.


Hoffem ddiolch i aelodau Byrddau Diogelu Gogledd Cymru ac is-grwpiau am eu hymgysylltiad, eu hymrwymiad a’r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond yn bwysicaf oll i’r holl weithlu diogelu ar draws y rhanbarth.

Wrth symud ymlaen i gyhoeddi, dylid nodi y byddwn yn colli Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Oedolion, Neil Ayling, sy’n ymddeol o’i rôl fel Cadeirydd ac fel Prif Swyddog yng Nghyngor Sir y Fflint ym mis Mehefin 2024.

Dymuna aelodau’r bwrdd ddiolch i Neil, am ei waith caled a’i ymroddiad wrth gyflawni’r rôl am yr wyth mlynedd ddiwethaf, lle y cafwyd sawl uchafbwynt ac isafbwynt o fewn maes diogelu oedolion. Gyda’i arweiniad a’i gefnogaeth, mae diogelu oedolion yng Ngogledd Cymru wedi parhau ar y daith o sicrhau bod diogelu dinasyddion y rhanbarth rhag niwed a chamdriniaeth, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Dymuna’r Bwrdd gymryd y cyfle hwn i ddymuno’n dda i Neil ar gyfer ei ymddeoliad, bydd colled enfawr ar ei ôl.



Jenny Williams
**Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**



Neil Ayling
**Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru**

## Amcanion y Byrddau Diogelu:

Nid yw gwasanaethu dinasyddion a chymunedau amrywiol rhanbarth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys chwe ardal Awdurdod Lleol, yn dod heb heriau sylweddol yn ei sgil. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd a'i aelodau'n parhau i fod yn falch o'r ethos cryf o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'i sefydlu ar lefel yr uwch fwrdd gweithredol a'r is-grwpiau. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn i ddod ac at barhau i adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf er mwyn cyflawni ein hamcanion a'n dyhead i gyrraedd rhagoriaeth mewn gwaith Diogelu, ymarfer proffesiynol, a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cymunedau.

Mae amddiffyn ac atal plant ac oedolion mewn perygl rhag profi unrhyw niwed a hybu lles trigolion Gogledd Cymru, gan alluogi iddynt gyflawni canlyniadau gwell, yn parhau i fod yn ganolog i waith y Bwrdd.


Mae meysydd wedi'u nodi ar gyfer gwelliant parhaus, a fydd yn galluogi'r Bwrdd a'i aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel yr amlinellir yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i amddiffyn ac atal plant ac oedolion mewn perygl yn y rhanbarth rhag profi camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

## 1.0 Ynglŷn â Byrddau Diogelu Gogledd Cymru:

### Strwythur ac Aelodaeth:

Ar hyn o bryd, mae Byrddau Diogelu Gogledd Cymru yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac unwaith ar y cyd. Hefyd, cynhelir Diwrnod Datblygu Busnes ar y cyd yn flynyddol, i osod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac i hunanasesu cynnydd y Byrddau.

Mae Grwpiau Cyflawni Ymarfer a Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Plant y Bwrdd yn cwrdd bob chwarter ar hyn o bryd. Mae'r Grwpiau Adolygu Ymarfer, Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Oedolion a'r Grŵp Gweithlu a Hyfforddiant ar y Cyd, yn cyfarfod ddwywaith y mis. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein yn bennaf ond mae'r byrddau'n dychwelyd yn raddol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb.




Strwythur: Mae gan y Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant yr un strwythurau ac is-grwpiau

## Aelodau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Cadeirydd: Neil Ayling (Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint)

Is-gadeirydd: Michelle Denwood Cyfarwyddwr Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Cyngor Sir Ynys Môn: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru: Rheolwr Tîm Atal Tanau Bwriadol ac Addysg Busnes

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gogledd Cymru: Pennaeth Yr Uned Brawf Leol

Heddlu Gogledd Cymru: Ditectif Uwcharolygydd / Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

Age Cymru: Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth, Prosiect Gobaith

Cyngor Sir Ddinbych: Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Cyngor Gwyned: Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaethau Iechyd a Lles Oedolion

Cyngor Sir y Fflint: Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion

Fforwm Gofal Cymru: Prif Weithredwr

Bwrdd Lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC): Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi: Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd (HMP Berwyn)

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: Arbenigwr Diogelu, Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion

NWSSIC: Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol.

## Aelodau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

Chair: Jenny Williams, (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

Is-gadeirydd: Jacqueline Downes, Ditectif Uwcharolygydd / Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol / Pennaeth Gwasanaethau Plant

Cyngor Sir y Fflint: Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gogledd Cymru: Pennaeth Yr Uned Brawf Leol

NSPCC: Cynrychiolydd Diogelu

Barnardo's: Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant

Cyngor Ynys Môn - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Cyngor Sir Ddinbych: Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Phennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant

Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid: Pennaeth y Gwasanaethau Atal a Chefnogi, Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Uwch Reolwr, Rheolwr Gwasanaeth

Cyngor Gwynedd: Pennaeth Cefnogi Plant a Theuluoedd, Pennaeth Addysg

Iechyd Cyhoeddus Cymru: Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Cyfarwyddwr Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd a Meddyg Penodol Diogelu Plant

Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: Arbenigwr Diogelu, Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion

NWSSIC: Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol

## 2.0 Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol

### 2.1 Y Gofrestr Risg

Mae'r Bwrdd yn parhau i fonitro'r gofrestr risg ac uwchgyfeirio pryderon i Lywodraeth Cymru neu asiantaethau perthnasol pan fo angen gweithredu.

Yn ystod 23/24 mae gan y Bwrdd nifer o feysydd / pryderon ymarfer lle bo'r risg wedi cynyddu.

Amlygwyd y meysydd canlynol:

Canllawiau Adran 5:
Mae'r grwpiau cyflawni lleol oll wedi tynnu sylw at bryderon o ran Canllawiau Adran 5.

- ❖ Y pryderon allweddol yw'r cynnydd mewn atgyfeiriadau Adran 5 ar draws y rhanbarth, mae hyn yn cynyddu'r pwysau ar Swyddogion Dynodedig Awdurdodau Lleol perthnasol.
- ❖ Ansawdd yr atgyfeiriadau Adran 5.
- ❖ Y rhyngwyneb rhwng Adran 3 Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac Adran 5.
- ❖ Mae angen rhagor o waith ar yr adran ar ganlyniadau cyfarfodydd strategol Adran 5.
- ❖ Mae angen hyfforddiant cenedlaethol ar Adran 5, er mwyn ceisio sicrhau cysondeb mewn Ymarfer.

Mewn ymateb, mae'r Bwrdd wedi uwchgyfeirio'r pryderon i Fwrdd Prosiect Cenedlaethol Gweithdrefnau Diogelu Cymru.  Rydym wedi tynnu sylw'r Byrddau Rhanbarthol eraill, a phan fydd Adran 5 wedi'i ddiweddaru bydd angen cyd-gomisiynu hyfforddiant cenedlaethol.

Proses Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl:
Dymuna'r Bwrdd gydnabod y gwaith da a wnaed gan Fwrdd Diogelu Canolbarth Cymru ar ddeunydd hyfforddiant Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (SUSR) sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mewn perthynas â'r canllawiau drafft, mae gan aelodau'r Bwrdd bryderon o ran y rhyngwyneb rhwng canllawiau SUSR a phanel sicrwydd ansawdd y Swyddfa Gartref pan fo elfen lladdiadau domestig i'r adolygiadau.  Mae gennym bryderon o ran y cynnydd o ran y galw ar aelodau'r Bwrdd a'r Uned Fusnes i ganfod cadeiryddion ac adolygwyr.  Yn 2.2, rydym wedi tynnu sylw at y camau a gymerwyd mewn perthynas â'r galw ar adolygiadau Ymarfer Plant.


Rydym yn parhau i gyfrannu at y gwaith a wnaed gan dîm Adolygiad Unedig Sengl Llywodraeth Cymru.

Recriwtio a Chadw Staff:
Mae aelodau'r Bwrdd wedi nodi'r heriau o ran recriwtio a chadw staff diogelu.  Gan ystyried y Proffil Staffio ar draws y rhanbarth, mae gennym nifer o staff amhrofiadol / newydd gymhwyso.

Mewn ymateb rydym wedi nodi bod angen darparu mwy o weithdai hyfforddiant amlasiantaeth Adran 47 ar gyfer staff sydd newydd gymhwyso a bod angen datblygu hyfforddiant Diogelu Oedolion amlasiantaeth.

## 2.2 Ymateb i'r cynnydd mewn gweithgarwch ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant

Yn ystod y cyfnod o 12 mis, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau ymarfer plant.




Oherwydd y cynnydd mewn atgyfeiriadau, bu'n rhaid i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru gynyddu'r gwariant mewn perthynas â chomisiynu adolygwyr allanol.  Y canlyniad y mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni, yw bod adolygiadau ymarfer plant yn y rhanbarth wedi'u dyrannu ac ar y gweill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i geisio datganiadau diddordeb gan adolygwyr mewnol ac yn ystod chwarter diwethaf 23-24 mae nifer o bartneriaid y Bwrdd wedi nodi swyddogion i ymgymryd â'r rôl o Gadeirio ac Adolygu.

## 2.3 Ymateb i faterion ymarfer sy'n dod i'r amlwg yn ystod y broses o adolygu ymarfer.

Rhannodd un o aelodau'r panel bryderon mewn Adolygiad Ymarfer Plant mewn perthynas â rheolaeth y broses adolygu a bod angen datblygu ymarfer o ran Amrywiaeth Ddiwylliannol.  Mewn ymateb i'r pryderon, comisiynodd y Bwrdd BASWSO i ddarparu Hyfforddiant Amrywiaeth Ddiwylliannol ac Ymarfer Niweidiol.

Y canlyniad yr oedd y Bwrdd yn ei geisio oedd bod gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda chymunedau Ethnig Du Lleiafrifol fwy o fewnwelediad ond hefyd bod teulu o fewn y broses adolygu yn teimlo eu bod yn

derbyn cefnogaeth ac yn cyfrannu at y broses adolygu. Roedd hyn yn amlwg yn y broses adolygu ac fe'i nodwyd pan gymeradwywyd yr adroddiad gan y bwrdd.

### 2.4 Ymateb i Arolygiadau Rheoleiddiol pan nodir materion diogelu amlasiantaeth.

Mae'r Bwrdd wedi gofyn bod aelodau yn uwchgyfeirio argymhellion o Arolygiadau Rheoleiddiol i'r Cadeirydd a'r Uned Fusnes pan fo angen cyflawni gwelliannau o ran ymarfer amlasiantaeth.

Yn ystod 23-24, derbyniodd y Bwrdd gyflwyniad gan Arolygiaeth Gofal Cymru a oedd yn nodi'r materion canlynol:

Trothwyon a Rhannu Gwybodaeth: Nododd AGC bod angen gwelliant yn y rhanbarth o ran rheoli risg pan gyrhaeddir y trothwy ar gyfer niwed sylweddol a beth sydd angen ei newid. Nodwyd arferion da gan Wasanaethau Plant Gwynedd o ran Model Ymarfer Plant Effeithiol.

Mae'r model ymarfer yn seiliedig ar 4 egwyddor:

- Trafodaethau – cyfathrebu effeithiol trwy ymarfer 'cyd drafodaethau'.
- Trothwyon – gwneud penderfyniadau yn gyson wrth asesu risg.
- Newid – ffocws clir ar y newid sydd ei angen i atal niwed.
- Mesur – mesur ein cynnydd yn erbyn canlyniadau.

Mewn ymateb i'r argymhellion gan AGC i'r Bwrdd, mae'r chwe awdurdod lleol ar draws y rhanbarth yn mabwysiadu'r fframwaith ymarfer hwn.

Mae'r Bwrdd, yn unol â chanllawiau Cymru ar rannu gwybodaeth bersonol, wedi datblygu protocol rhannu gwybodaeth rhanbarthol ar gyfer holl bartneriaid y Bwrdd.

## 3.0 I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar.

### 3.1 Blaenoriaeth Strategol 1 - Ymateb yn effeithiol i'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau Ymarfer Oedolion/ Plant Rhanbarthol, y fforwm proffesiynol Amlasiantaethol Rhanbarthol ac adolygiadau diogelu Cenedlaethol a'r DU.

Fel Bwrdd, rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio adolygwyr mewnol. Mae'r prif bwysau wedi bod mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant. Fodd bynnag, mewn perthynas ag adolygiadau ac archwiliadau a gwblhawyd ar draws Cymru a Lloegr, mae tystiolaeth o gynnydd o ran rhannu ac ymgorffori dysgu yn adroddiadau'r asiantaethau partner.

Ynys Môn: Yn defnyddio ystod o ffynonellau a dulliau i sefydlu sail dystiolaeth o ran ansawdd ymarfer o fewn y gwasanaeth gan gynnwys dysgu o'r archwiliadau rheolaidd ynghyd â'r Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Mae'r dysgu a'r argymhellion o'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn cael eu rhannu drwy'r gwasanaeth drwy gylchoedd dysgu mewnol a goruchwyliaeth fyfyriol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Mae Tîm Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd y Bwrdd Iechyd wedi datblygu Grŵp Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR), Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APR) ac Adolygiadau Lladdiadau Domestig (DHR) a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol. Mae'r grŵp yn monitro gweithgarwch ar draws Gogledd Cymru i sicrhau fod BIPBC yn gallu cynnig sicrwydd o ran dysgu a nodwyd.

Conwy: Mae Fforymau Diogelu Plant Conwy'n parhau i gael eu cynnal, ond yn chwarterol yn awr; mae hyn yn sgil capasiti'r rheolwr ynghyd â chyflwyno Fforwm Diogelu Ymarferwyr. Sefydlwyd Fforwm Diogelu Ymarferwyr i ddarparu cyfle i'r holl staff gofal cymdeithasol, o bob swydd, fynychu a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf y byddai disgwyl i'r rheolwyr ei rhannu yn y gorffennol.

Sir Ddinbych: Mae Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn cael eu rhannu gyda'r timau gweithredol ac yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd dysgu a myfyrio ar gyfer yr ymarferwyr. Mae Fforymau Ymarfer Amlasiantaeth wedi'u cwblhau ac mae rhai themâu allweddol a nodwyd o'r Adolygiadau Ymarfer Plant yn cynnwys defnydd y rhieni o ganabis a chwilfrydedd proffesiynol.

Sir y Fflint: Cyflwynodd Sir y Fflint archwiliad mewnol o ran dysgu o'r adolygiadau, a'r cwmpas oedd: Sicrhau bod canlyniadau Adolygiadau Ymarfer (Oedolion a Phlant) yn cael eu hymdrin yn unol â'r Ddeddfwriaeth. Archwilio canlyniadau Adolygiadau Ymarfer yn unol â'r fframwaith adolygu a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau. Sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n cael eu cwblhau a bod dysgu'n cael ei ymgorffori a'u bod yn gwneud gwahaniaeth. Sicrhau bod prosesau gwybodaeth rheoli ac adrodd i reolwyr effeithiol yn eu lle.

Mae cyfleoedd dysgu rhanbarthol yn cael eu hyrwyddo i staff yn rheolaidd ac fe'u hanogir i fynychu.

Cyngor Gwynedd: Mae Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn parhau i gael eu rhannu gyda'r staff ac yn cael eu trafod mewn cyfarfod Diogelu Oedolion chwarterol. Aeth cydweithiwr o Gyngor Sir y Fflint i Fwrdd Diogelu Oedolion Gwynedd a Môn i rannu'r gwersi a ddysgwyd mewn Adolygiad Ymarfer Oedolion. Yn dilyn y cyfarfod, penderfynwyd y byddai Cyngor Gwynedd yn gwahodd cydweithwyr o'r rhanbarth i gyflwyno eu Hadolygiadau Ymarfer Oedolion yng nghyfarfodydd chwarterol Diogelu Oedolion.

Heddlu Gogledd Cymru: Mae proses wedi'i sefydlu o fewn HGC lle bo argymhellion yn cael eu rhannu'n fewnol a'u hadlewyrchu mewn cynlluniau gweithredu tactegol. Mae'r cynlluniau'n cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau y cyflawnir cynnydd, a bod prosesau'n cael eu diwygio'n briodol.

Wrecsam: Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn croesawu diwylliant dysgu cefnogol ar draws ei feysydd gwasanaeth ac yn sicrhau bod yr holl ddiweddariadau diogelu cenedlaethol ac yn y DU yn cael eu rhannu mewn Newyddlen Diogelu Corfforaethol bob chwarter, sy'n cael ei rhannu ar draws y Cyngor. Hefyd cynhelir sesiynau trafod a myfyrio ar ddysgu llawn bob mis yn y Tîm Diogelu Oedolion a Thîm Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

Mae Adolygiadau Ymarfer Plant rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu hadolygu gan y tîm diogelu plant, ac mae dysgu allweddol yn cael ei rannu o'r adroddiadau gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth ac mewn cyfarfodydd

chwarterol ar ansawdd ymarfer a pherfformiad. Yna caiff ei rannu gyda'r holl reolwyr a'i ychwanegu at gynllun gweithredu ansawdd ymarfer a pherfformiad. Fel partner allweddol y bwrdd cyflawni lleol, rydym yn sicrhau bod dysgu a rennir yng nghyfarfodydd y bwrdd yn cael eu rhannu drwy'r sefydliad.

### 3.2 Blaenoriaeth Strategol 2 – Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol: Gwella ymgysylltu ac ymgynghori gyda phlant ac oedolion mewn perygl, grwpiau diamddiffyn, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau.

Cyflwynwyd tystiolaeth o gyfathrebu gwell gyda Phlant ac Oedolion mewn Perygl yn Adroddiadau Blynyddol yr Asiantaethau Partner. Er enghraifft, mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Môn yn cyflwyno rhaglen drawsnewid trwy fabwysiadu ymagwedd o Gyfathrebu ar y Cyd ar bob lefel yn y sefydliadau. Mae Gwasanaeth Therapiwtig Sir Ddinbych hefyd wedi buddsoddi'n helaeth mewn Cyfathrebu ar y Cyd.

Mae cynnydd amlwg mewn cyfranogiad cefnogaeth eiriolaeth o fewn cyfarfodydd strategol a thrwy'r archwiliadau rheolaidd, nodwyd y rhoddir ystyriaeth i lais a chyfranogiad yr unigolyn mewn cyfarfodydd strategol a chynadleddau achos oedolion. Yng Nghonwy, mynegodd Arweinydd Diogelu Oedolion bryderon, mewn galwadau darparwyr wythnosol a gyflwynir gan y gwasanaeth Comisiynu a Safonau Ansawdd, o ran diffyg ymgysylltu gyda'r sector darparwyr y tu hwnt i'r prosesau adrodd am Unigolyn mewn Perygl uniongyrchol. Hefyd roedd pryder o ran rhai galwadau, fod presenoldeb darparwyr yn isel ac nad oedd negeseuon diogelu allweddol nac ymwybyddiaeth yn cael eu rhannu'n eang ac yn effeithiol. Felly, cytunwyd y byddai Newyddlen Darparwyr Diogelu Conwy yn cael ei chynhyrchu ac ym mis Rhagfyr 2022 rhannwyd y rhifyn cyntaf gyda phob darparwr ar draws Conwy. Cyhoeddir newyddlen yn rheolaidd bob chwe mis.

O ran y byrddau, mae her yn parhau o ran ymgysylltu â phlant ac oedolion mewn perygl yn uniongyrchol. Crëwyd aelodaeth ychwanegol ar Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar gyfer cynrychiolydd o Brosiect Hope Age Cymru gyda'r gobaith y gellir cydweithio gyda nhw o ran ymgysylltu ag oedolion mewn perygl.

Cyfathrebu gyda phartneriaethau strategol eraill: Mae adroddiadau ar y prif bwyntiau a materion allweddol yn cael eu nodi a'u cyflwyno i Fwrdd Diamddiffynedd a Cham-fanteisio gyda chyfarfod ar y cyd rhwng y ddau fwrdd ym mis Medi bob blwyddyn.

Darperir adroddiadau hefyd i Gyfarfod y Cadeiryddion a rhoddwyd Diweddariad Blynyddol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae cydweithio'n parhau rhwng y timau rhanbarthol eraill, gan gynnwys y tîm Comisiynu Rhanbarthol a ffrydiau gwaith Plant a Phobl Ifanc.

### 3.3 Blaenoriaeth Strategol 3 – Cefnogi'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd yn 2022 gan gynnwys Atal Cosbi Corfforol a Threfniadau Amddiffyn Rhyddid, ochr yn ochr ag ymateb i gynlluniau gweithredu cenedlaethol ar Gam-

drin Plant yn Rhywiol ac atal achosion o gam-drin pobl hŷn.

Datblygwyd Strategaeth Trais Difrifol ac mae gwaith ar y gweill. Derbynnir y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd, ac fe gynhelir trafodaeth sy'n fwy ffurfiol yn y Bwrdd ar y Cyd ym mis Medi.

Er bod LPS wedi'i ohirio ar hyn o bryd, mae'r asiantaethau yn parhau i ddatblygu eu gweithlu yn barod ar gyfer hyn. Mae hyfforddiant ychwanegol o ran Galluedd Meddyliol wedi'i gynnal ar draws y rhanbarth. Mae gwaith yn parhau i leihau'r rhestrau aros ar gyfer awdurdodi Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, gyda rhai asiantaethau yn gallu cyflogi aseswyr ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith.

Adolygiad Brys o Ymarfer Diogelu yng Nghymru - Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant.

Cafwyd cyflwyniad a chynhaliwyd trafodaethau yng nghyfarfodydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar ganfyddiadau'r adolygiad brys, gydag AGC yn bresennol i'w cyflwyno.

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r cynllun newydd gael ei gyhoeddi. Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru'n alinio'r camau gweithredu gyda'r meysydd o waith sydd eisoes wedi'u cyflawni yn y rhanbarth.

## 4.0 Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy'n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd?

Bwrdd Diamddiffynedd a Chamfanteisio Gogledd Cymru:

Cyflwynir adroddiadau ar y prif bwyntiau'n rheolaidd i'r Bwrdd Diamddiffynedd a Chamfanteisio mewn perthynas â themâu a materion trawsbynciol. Mae cadeiryddion y ddau fwrdd diogelu'n aelodau. Cynhelir cyfarfod ar y cyd yn flynyddol lle bo Cadeirydd Bwrdd Diamddiffynedd a Chamfanteisio'n cyflwyno ei adroddiad blynyddol ar y prif bwyntiau. Roedd rhaglen y cyfarfod diwethaf yn canolbwyntio ar gamfanteisio a diamddiffynedd gan gynnwys Caethwasiaeth Fodern mewn Cartrefi

Gofal, Llinellau Sirol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Dyletswydd Trais Difrifol a chyflwyniad a thrafodaeth am Ofal Cywir, Person Cywir.

Byrddau Diogelu Swydd Gaer a Gorllewin Swydd Gaer:

Trefnir y cyfarfodydd ac fe'u cynhelir yn flynyddol. Derbyniodd y Bwrdd hysbysiad gan Bartneriaeth Gorllewin Swydd Gaer ynglŷn ag Ymchwiliad Thirlwall ac maent wedi gofyn am gael derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

Byrddau Diogelu ar draws Cymru:

Cynhelir cyfarfodydd â chydweithwyr o'r holl Fyrddau Diogelu yng Nghymru fesul

chwarter.  Mae'r Rheolwyr Busnes yn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, adnoddau a dealltwriaeth yn rheolaidd.

### Llywodraeth Cymru:

Mae cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cael eu cynnal gyda Chadeiryddion y Byrddau Diogelu bob ychydig fisoedd.
Cynhelir cyfarfodydd chwarterol gyda Rheolwyr Busnes y byrddau diogelu, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i drafod themâu a materion sy'n codi, a chynnydd ar ffrydiau gwaith cenedlaethol.

### Swyddfa Crwner Gogledd Cymru:

Mae Cadeiryddion y ddau Fwrdd ac aelodau'r Uned Fusnes yn mynychu cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn â Chrwneriaid Gogledd Cymru, i drafod y prif faterion a themâu sy'n deillio o'r adolygiadau ymarfer ac unrhyw fater a amlygwyd yn y grwpiau cyflawni ymarfer lleol yr ystyriwyd yn berthnasol i'r crwner.

### Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC):

Ceir cyfathrebu rheolaidd rhwng y Byrddau ac AGC.  Mae materion a themâu'n cael eu trafod, ynghyd â'r cynnydd o ran sut mae asiantaethau'n ymateb i'r Adolygiadau Brys sydd wedi'u cynnal, yn dilyn presenoldeb AGC ym Mwrdd Plant Gogledd Cymru i gyflwyno eu canfyddiadau.

### Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru:

Mae nifer o aelodau'r Bwrdd Diogelu hefyd yn mynychu'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol a Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru.  Mae gwaith ar y cyd wedi'i gyflawni rhwng y Byrddau mewn perthynas â'r adolygiad o Broses Uwchgyfeirio Pryderon Gogledd Cymru i sicrhau bod cyfeiriadau at weithdrefnau, protocolau a chanllawiau diogelu yn eu lle.  Cynhelir rhagor o waith ar y cyd mewn perthynas â'r ffrydiau gwaith sydd â materion sydd o bosib yn ymwneud â diogelu.

## 5.0 Unrhyw geisiadau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau .

Nid yw unrhyw fwrdd wedi teimlo bod angen gwneud unrhyw geisiadau o dan adran 137(1) y ddeddf.  Mae'r holl wybodaeth wedi'i chyflwyno fel rhan o fusnes arferol y bwrdd.

## 6.0 Cyflawniadau'r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn.

### 6.1 Cwblhau a Chyhoeddi Canllawiau:

Mae'r canllawiau canlynol wedi'u datblygu a'u cwblhau:

### Protocol Marwolaeth Annisgwyl Oedolyn mewn Perygl:

Gall amgylchiadau ble mae Oedolyn mewn Perygl wedi marw'n annisgwyl, pan fo amheuaeth neu ei bod yn hysbys fod cam-drin neu esgeulustod yn rhan ohono, fod yn heriol ac yn gymhleth i'w drin gydag asiantaethau partner â gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn ymateb i'r farwolaeth.
Mae protocol marwolaeth oedolyn yn darparu fframwaith i sefydlu safon gytunedig rhwng partneriaid i:

- ❖ Sicrhau ymateb amlasiantaeth effeithiol a chyson a fydd yn cefnogi asiantaethau BDRhGC i fodloni gofynion deddfwriaeth, canllawiau cenedlaethol a lleol a safonau ymarfer o ran ymatebion priodol i farwolaethau annisgwyl oedolion sy'n cynnwys camdriniaeth ac esgeulustod.
- ❖ Sicrhau eglurder a chysondeb gweithdrefnau ar draws sefydliadau BDRhGC.
- ❖ Datblygu trefniadau sy'n cefnogi effeithlonrwydd wrth weithio mewn partneriaeth i adnabod troseddau posib neu pan fo angen cynnal ymchwiliadau i farwolaethau annisgwyl oedolion.

### Ymolchi Babanod a Phlant Bach yn ddiogel:

Mae taflen wedi'i chynhyrchu i hyrwyddo'r negeseuon o ran ymolchi babanod a phlant bach yn ddiogel, thema sydd wedi'i nodi mewn sawl adolygiad ymarfer plant.

### Beth i'w ddisgwyl mewn Cynhadledd Achos Amddiffyn Oedolion:

Cynhyrchwyd taflen wybodaeth gyda gwybodaeth ar gyfer Oedolion, eu Gofalwyr, Teuluoedd ac Eiriolwyr o ran beth i'w ddisgwyl mewn Cynhadledd Achos Amddiffyn Oedolion.

### Ffurflen Adrodd Diogelu Oedolion mewn Perygl Gogledd Cymru:

Mae'r ffurflen adrodd wedi'i hadolygu a'i diweddaru i gynnwys adnabod rhywedd.

### Ffurflen Ymholiadau a Chanlyniadau Dirprwyol:

Mae hon wedi'i datblygu gan BIPBC mewn cytundeb gyda phartneriaid i gynorthwyo gyda gofynion gwybodaeth ymholiadau dirprwyol A126.

### Diweddariad Protocol ar y Cyd rhwng Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru:

Mae Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru a Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gydweithio'n effeithiol. Nod y ddogfen hon yw:

- ❖ Cefnogi cydweithredu a chydweithio, pan fo hynny'n synhwyrol ac yn ymarferol.
- ❖ Sefydlu dull cyfathrebu cadarn a chlir rhwng y Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- ❖ Helpu i osgoi dyblygu diangen a sicrhau bod unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu yn cael eu rhannu'n eang ar draws partneriaethau amlasiantaeth a phrosesau adolygu priodol.

### Canllawiau Ymarfer sydd ar y gweill:

Mae'r canllawiau ymarfer cyfredol yn y cam ymgynghori:

- ❖ Canllawiau Ymarfer Meddiannu Cartrefi Pobl Ddiamddiffyn i Werthu Cyffuriau: Canllaw o ran gweithio gydag oedolion sydd mewn perygl o fod yn destun cam-fanteisio - meddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau.
- ❖ Canllawiau Profiad Bywyd Ymarfer Oedolion: Mae'r ddogfen hon yn cael ei datblygu gan arteriae er mwyn galluogi ymarferwyr i ystyried profiad yr oedolyn a sicrhau bod profiad bywyd yr oedolyn yn parhau yn rhan ganolog o unrhyw gamau gweithredu a gymerir i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl.
- ❖ Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl - Proses Gwynion.
- ❖ Egwyddorion "Ni Ddaethpwyd â'r Unigolyn" ar gyfer: Plant, Oedolion mewn Perygl ac Oedolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth.
- ❖ Diogelu Trosiannol: Mae'r canllaw ymarfer yn nodi'r trefniadau ar gyfer pobl ifanc rhwng 17.5 oed a 25 oed, y gallai eu hamgylchiadau olygu y byddai gweithdrefnau Diogelu Oedolion Cymru yn berthnasol pan fyddant yn 18 oed.

## 6.2 Wythnos Genedlaethol Diogelu:

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu, comisiynwyd y digwyddiadau canlynol, ac roedd y digwyddiadau ar agor i'r holl asiantaethau a sefydliadau'r trydydd sector:

Deall camdriniaeth ar sail 'anrhydedd': Hwylusydd: (Stori Cymru) Sesiwn i helpu i ddeall yr hyn a elwir yn 'camdriniaeth ar sail anrhydedd' (cyfeirir ato hefyd fel arferion niweidiol) er mwyn cydnabod ac ymateb i'r teulu cyfan. Nod y cwrs oedd cynyddu hyder unigolion er mwyn adnabod ac ymateb i ddatgeliadau neu sefyllfaoedd o amheuon o gamdriniaeth ar sail "anrhydedd".

Cam-drin Plant yn Rhywiol - Rheoli Risg a Thrawma ar ôl troseddu rhywiol ar-lein: Hwylusydd: Natasha Sabin. Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol Mae cannoedd o deuluoedd yn darganfod fod rhiant neu ofalwr wedi edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol bob mis. Roedd y sesiwn hon yn amlygu'r dystiolaeth ymchwil ar y math hwn o droseddu ac yn rhoi cyngor ymarferol i weithwyr proffesiynol ar sut i ddiogelu a chefnogi teuluoedd ar adeg o drallod emosiynol mawr.

Ymddygiad Rhywiol Niweidiol – y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol: Hwylusydd: Lorraine Myles. Roedd y sesiwn hon yn amlygu rhywfaint o'r gwaith a wnaed ac adnoddau newydd a gyhoeddwyd gan y ganolfan arbenigedd.

Adnabod Camdriniaeth Pobl Hŷn: Hwylusydd: Stori Cymru. Roedd y sesiwn hon yn codi ymwybyddiaeth o ddynameg camdriniaeth. Dynameg teulu a'r effeithiau ar gamdriniaeth, a sut y gall oedran effeithio ar y profiad o gamdriniaeth.

Galluedd Anwadal yng Nghyd-destun Deddf Galluedd Meddyliol 2005: Hwylusydd: Dr Laura Pritchard-Jones. Roedd y digwyddiad yn ystyried y fframwaith cyfreithiol mewn sefyllfaoedd lle ymddengys bod gallu meddyliol unigolyn i wneud penderfyniadau'n amrywio. Cyflwynwyd astudiaethau achos, gan gynnwys ystyriaeth o'r ffyrdd gwahanol y mae galluedd meddyliol unigolyn yn gallu amrywio, yn ogystal â nodi arferion cyfreithlon ac ystyriol o ran moeseg mewn sefyllfaoedd o'r fath gan ddefnyddio'r fframwaith cyfreithiol perthnasol, ei ganllawiau statudol, a'r

gyfraith achos gysylltiedig gan y Llys Gwarchod.

Arwyddion a Dangosyddion Cam-drin Plant yn Rhywiol: Hwylusydd: Nici Evans. Roedd y sesiwn hon yn amlygu rhywfaint o'r gwaith a wnaed ac adnoddau newydd a gyhoeddwyd gan y ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Hyfforddiant Amrywiaeth Ddiwylliannol ac Arferion Niweidiol: Hwylusydd: BASWSO. Yn dilyn yr argymhellion a'r dysgu o Adolygiad Ymarfer Plant, comisiynwyd y sesiwn hon i fynd i'r afael â'r hyn y dylid ei wneud ac na ddylid ei wneud o ran Diwylliant, Amrywiaeth a Chydraddoldeb wrth weithio gyda chymunedau Ethnig Du Lleiafrifol ac arferion niweidiol.

Atal Hunanladdiad SP-OT - Tiwtorial Trosolwg: Hwylusydd: Atal Hunanladdiad ymysg Pobl Ifanc PAPYRUS. Yr amcanion allweddol oedd deall cyffredinolrwydd ac effaith hunanladdiad. Archwilio'r iaith, a'r heriau, wrth siarad yn agored am hunanladdiad. Adnabod yr 'arwyddion' a all ddynodi bod rhywun yn meddwl am hunanladdiad.

Ymgysylltu â Thadau yn yr Arena Ddiogelu gan gynnwys adolygiadau ymarfer plant: Hwylusydd: Paul Jones. Gweithdy i ymarferwyr i gael gwell dealltwriaeth am ddysgu o adolygiadau ymarfer sy'n ymwneud ag ymgysylltu â thadau. Roedd y rhai'n bresennol hefyd yn dysgu argymhellion am arferion da i'w defnyddio wrth weithio gyda thadau/ffigurau tadol.

Hourglass - Cefnogi dioddefwyr Cam-Drin Pobl Hŷn: Sesiwn codi ymwybyddiaeth am yr elusen a'r gwasanaethau maent yn eu cynnig, y mathau o alwadau ac achosion maent yn delio â nhw. Gan gynnwys rhai astudiaethau achos/enghreifftiau.


Chwilfrydedd Proffesiynol: Hwylusydd: Paul Jones. Chwilfrydedd proffesiynol yw'r gallu a'r sgil i gyfathrebu er mwyn archwilio a deall beth sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na thybio neu dderbyn pethau heb ymchwilio ymhellach. Roedd y gweithdy yn cyfeirio at ddysgu o adolygiadau ymarfer a hefyd yn trafod Canllawiau Chwilfrydedd Proffesiynol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.


## 7.0 I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd.

### 7.1 Presenoldeb y Bwrdd a Sesiwn Datblygu Busnes:

Trafodwyd presenoldeb ar y Bwrdd yn y Sesiwn Datblygu Busnes a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2024. Nodwyd bod diffyg presenoldeb rhai asiantaethau ar y Bwrdd, ac fe drafodwyd hyn yn dilyn y sesiwn. Diweddarwyd Cofrestr Risg Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i adlewyrchu'r risgiau presennol.

Trafodwyd blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod cyn cyhoeddi Cynllun Busnes Blynyddol y Bwrdd ynghyd â chytuno ar y gyllideb a lefel cyfraniadau partner. Hefyd trafodwyd cynllun gweithredu SUSR ar gyfer Gogledd Cymru a'r posibilrwydd o ailstrwythuro'r bwrdd.





## 7.2 Cyfraniad Gwaith Asiantaethau Partner

Mae'r graffeg isod yn dangos cyfraniadau pob asiantaeth at waith y Byrddau. Mae'r manylion yn cynnwys presenoldeb ar ran y Bwrdd mewn perthynas â darnau cenedlaethol o waith, trefniadau Cadeirydd is-grwpiau a chyfraniadau i Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant naill ai fel Cadeirydd Panel neu Adolygwr.

### Cyfranogiad Is-grŵp a Chadeirydd yr Adolygiad:




## 7.3 Heriau mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Grŵp Adolygu Ymarfer Plant, a'r cynnydd dilynol yn yr atgyfeiriadau sy'n cael eu symud ymlaen, wedi creu heriau wrth geisio Cadeiryddion Panel ac Adolygwyr. Gyda gweithrediad yr Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl ar ddod yn fuan, mae'r Bwrdd yn nodi hyn fel maes o risg gyda'r Bwrdd yn dod yn gyfrifol am Adolygiadau Lladdiadau Domestig, Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiadau Arfau Ymosodol ynghyd â'r Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Er y bydd cofrestr o adolygwyr a chadeiryddion cymeradwy, efallai y bydd problemau'n parhau o ran canfod Cadeiryddion ac Adolygwyr gyda'r maes arbenigedd penodol, i ymgymryd â'r prosesau hyn.

Yr heriau eraill a nodwyd yw ymgorffori dysgu yn yr ymarfer, dyblygu themâu a'r gwersi a ddaw o'r adolygiadau a rhai problemau o ran parodrwydd staff asiantaeth i ymgymryd â rolau aelodau panel a diffyg cyfathrebu rhwng aelodau'r panel a'r staff a enwebwyd i fynychu'r digwyddiadau dysgu. Gobeithir y bydd yr hyfforddiant SUSR a drefnwyd yn gymorth i atgyfnerthu ac egluro cyfrifoldebau Cadeiryddion, Adolygwyr ac Aelodau Panel ymhellach.

## 7.4 Adroddiadau Asiantaethau Partner:

Caiff Adroddiadau Asiantaethau Partner eu llunio a'u derbyn yn flynyddol er mwyn darparu gwybodaeth a sicrwydd ynghylch y gwaith a wneir mewn perthynas â blaenoriaethau'r Bwrdd. Gofynnir i bob asiantaeth gyflwyno eu hadroddiad a phennir cyfaill beirniadol ar gyfer gofyn cwestiynau neu geisio rhagor o wybodaeth.

Mae'r ymarfer hwn yn sicrhau bod y Byrddau'n ymwybodol o unrhyw faterion neu themâu sy'n dod i'r amlwg ac yn tynnu sylw at arferion da. Bydd rhai o'r

themâu hyn yn helpu i lywio blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Themâu a Materion a nodwyd yn ystod 2023 / 2024:**

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

### Oedolion:

- Cynnydd mewn Camdriniaeth Ariannol.
- Nifer cynyddol o Adroddiadau AAR
- Adran 5- diffyg eglurder a hyfforddiant.

### Plant:

- Cynnydd yn nifer y plant sy'n dychwelyd i arena cynhadledd ddiogelu yn dilyn cyfnod o ddadgofrestru amddiffyn plant o fewn cyfnod o 12 mis.
- Pwysau o gynnydd cyffredinol mewn cymhlethdodau teuluol.
- Nid oes modd lleihau risg, drwy gynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth, gan olygu bod plant hŷn cymhleth angen lleoliadau y tu hwnt i'w teuluoedd agos ac estynedig.
- Rheoli anghenion diogelu a lles yn enwedig mewn perthynas ag niwed y tu allan i'r teulu.
- Mae recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth, defnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth am gostau uchel.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

### Oedolion:

- Mae proses Adran 5 yn parhau i fod yn her allweddol.
- Symud i systemau digidol - rhai adrannau heb symud drosodd eto.

### Plant:

- Cynnydd mewn Adroddiadau Plentyn mewn Perygl.
- Mae proses Adran 5 yn parhau i fod yn her allweddol.
- Mae GIG Cymru yn bwriadu symud at un System Adrodd Digidol a fydd yn cynnwys rhoi gwybod am bryderon Diogelu mewn ffordd ddigidol.
- Mae staff y Bwrdd Iechyd yn cwblhau nifer fawr o Adroddiadau AAR sy'n ymwneud â phryderon a godwyd mewn gwasanaethau darparwyr gofal annibynnol. Caiff camau eu cymryd yn syth i gefnogi unigolion a gwasanaethau ac fe ymgysylltir yn llawn gydag asiantaethau partner a'r broses AAR.

## Cyngor Sir y Fflint:

### Oedolion:

- Adroddiadau Diogelu Oedolion yn cynyddu ac yn gymhleth.
- Materion staffio ar draws Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi creu her.
- Diffyg cyfathrebu effeithiol mewn perthynas â gweithio gyda thimau eraill a derbyn gwybodaeth am newidiadau staff allweddol.
- Yr her fwyaf yw recriwtio staff.

Plant:

- Model Ymarfer Diffiniedig.
- Gwella gwaith partneriaeth.
- Recriwtio a chadw a strategaeth gwblhau asiantaeth.
- Rhannu dysgu a datblygu ymarfer.

## Heddlu Gogledd Cymru:

### Oedolion:

- Bydd proffil problem yr Heddlu ar gyfer Oedolion mewn Perygl yn cael

ei adnewyddu gyda chymorth partneriaid. Bydd y ddogfen yn caniatáu dealltwriaeth fanwl o'r galw yn y dyfodol a'r effaith ar blismona.

### Plant:

- Cofnodi 'Llais y Plentyn'.
- Absenoldeb cyfleusterau MASH ar draws yr Heddlu.

## Carchar EF a'r Gwasanaeth Prawf

### Ar y cyd:

- Rhyddhau o'r Carchar ar Drwydded dan Oruchwyliaeth (ECSL), wedi'i sefydlu i leihau pwysau o ran capasiti mewn carchardai.

## Cyngor Sir Ynys Môn:

### Oedolion:

- Angen mwy o eglurder o ran Adran 5.
- Niferoedd uchel o bryderon diogelu cymhleth ynghyd â phryderon cymhleth o ran unigolion sy'n hunan-esgeuluso a chelcio sydd angen cefnogaeth arbenigol.
- Datblygu gwell dealltwriaeth rhwng asiantaethau o ran protocol hunan-esgeuluso a chelcio ac mae angen i asiantaethau ddeall eu rolau fel cydlynwyr arweiniol.
- Cynnydd yn nifer y ceisiadau am asesiadau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, gan gynnwys CoPDoL.

### Plant:

- Nifer y lleoliadau sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn gallu parhau i fyw gyda'u teulu genedigol.
- Cyfradd uchel y gwaharddiadau mewn ysgolion (cyfnod penodol a pharhaol).
- Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

## Cyngor Sir Ddinbych:

### Oedolion:

- Mae prosesau Adran 5 yn parhau i fod yn her mewn sawl maes, ond yn benodol mewn perthynas ag elfen weithredol y broses hon, h.y. arferion gwael yn erbyn camdriniaeth/esgeulustod, ac ati.
- Mae rhestr aros Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi amrywio dros y 12 mis diwethaf ac maent yn parhau i fod yn her.
- Mae hyfforddiant BIA yn parhau i fod ar yr agenda gan nad oes darpariaeth i ddarparu hyn drwy Sefydliad Addysg Uwch lleol.

### Plant:

- Recriwtio - Er y gwnaed cynnydd o safbwynt recriwtio, mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol profiadol yn parhau i fod yn her ym meysydd allweddol Amddiffyn Plant a'r Llys.
- Digonolrwydd lleoliadau - yn fewnol ac allanol, yn parhau i fod yn bryder sylweddol, gan effeithio ar argaeledd pob math o leoliadau.
- Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu pen eu hunain - rydym yn parhau i dderbyn lleoliadau drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol mandadol - wedi'u lleoli y tu allan i'r sir - gan gynyddu eu diamddiffynedd ac yn lleihau gallu'r Awdurdod Lleol i gefnogi'n effeithiol.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

### Oedolion

- Ymholiadau A.126 yn cael eu cyflawni gan asiantaethau eraill - oedi o ran amser.

- Tai a Thenantiaeth ar gyfer rhai sydd wedi'u pennu fel rhai heb alluedd.

Plant:

- Heriau o ran cadw a recriwtio staff.
- Cyfyngiadau cyllidebol.
- Her arweinydd cyfrifol iechyd meddwl.
- Mae nifer cynyddol o blant gyda phroblemau iechyd meddwl lle bo'r gefnogaeth a'r gwasanaeth sydd ar gael gan bartneriaid iechyd yn gyfyngedig.

## Cyngor Gwynedd:

Oedolion:


- Diffyg adnoddau'r Heddlu - Mae hyn yn effeithio ar y gallu i drefnu cyfarfodydd yn brydlon.
- Hunan-esgeuluso / capasiti.
- Adran 5.
- Eiriolaeth.
- Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid.

Plant:

- Cynnydd o ran Adran 5.
- Adnoddau'r Heddlu - Mae adnoddau dan bwysau ar draws asiantaethau eraill, yn enwedig Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i drefnu cyfarfodydd yn brydlon.
- Anawsterau wrth recriwtio i swyddi lle bo angen profiad helaeth a sgiliau iaith.
- Heriau lleoliadau diogel.
- Mae camfanteisio Troseddol ar Blant yn dod yn fwy amlwg.
- Cynnydd annisgwyl o ran galw - Gwiriadau gwasanaeth prawf.

## 8. Asesiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau.

### 8.1 Cyllideb y Bwrdd:



## 8.2 Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion / Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:

Wrth i nifer yr atgyfeiriadau i'r grŵp Adolygiadau Ymarfer Plant barhau i gynyddu, mae capasiti staff i ymgymryd â rolau Cadeiryddion Panel ac Adolygwyr wedi lleihau. Mae hyn wedi arwain at gomisiynu Cadeiryddion ac Adolygwyr i gyflawni'r adolygiadau hyn. Mae hyn wedi peri costau ariannol sylweddol ac wedi creu oedi o ran dechrau'r broses gan fod angen dilyn prosesau comisiynu.

Rhoddwyd cyflwyniadau yn y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel / Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru / Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae cyfarfodydd rheolaidd wedi bod yn gymorth gyda Rheolwyr Busnes CSP. Mae Rheolwr Busnes BDGC a CSP wedi mynychu peilot hyfforddiant SUSR Aelod Panel a Chadeirydd ac Adolygydd ym mis Chwefror ac wedi adrodd sylwadau yn ôl.

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu SUSR er mwyn darparu cyfnod pontio esmwyth i'r Adolygiad Diogelu Unigol Sengl. Mae trafodaethau ar y gweill o ran symud i Fwrdd ar y cyd a beth fydd strwythur is-grwpiau'r bwrdd hwnnw. Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp Adolygu Achos SUSR yn cael ei ddrafftio ac mae'r aelodaeth arfaethedig yn cael ei ystyried.

Nodwyd hyfforddwr er mwyn parhau i gyflwyno hyfforddiant SUSR pan fydd canllawiau wedi'u cadarnhau a'u cyhoeddi. Mae'r Bwrdd yn ceisio cyflwyno rhaglen dreigl o hyfforddiant a fydd ar gael i'r holl asiantaethau.

Bydd adnoddau SUSR yn cael eu hychwanegu at wefan BDGC pan fyddant ar gael er mwyn cael mynediad hawdd atynt.

## 8.3 Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth:

Yn ystod 2023/24, yn ogystal â chomisiynu hyfforddiant, rydym wedi defnyddio Aelodau'r Bwrdd a staff eu hasiantaethau ar draws y rhanbarth i ddarparu gweithdai, gweminarau a hyfforddiant ar faterion sy'n effeithio ar eu sefydliadau hwy, ac i rannu dysgu a'u profiad o Adolygiadau Ymarfer. Mae'r rhain wedi cynnwys:

### Caethwasiaeth Fodern o fewn Cartrefi Gofal:

Cyflwynwyd sesiwn gan Arweinydd Diogelu Oedolion Conwy, yn dilyn achos o Gaethwasiaeth Fodern a adroddwyd ac a ymchwiliwyd yn y sir.

### Hunan-esgeulustod - Ymgorffori dysgu mewn ymarfer / Dysgu o Adolygiad Ymarfer Oedolion:

Cyflwynwyd dysgu sefydliadol a phersonol o Adolygiad Ymarfer Oedolion ac fe'i trafodwyd drwy'r Grwpiau Cyflawni Diogelu Oedolion Rhanbarthol ar draws y rhanbarth gyda Rheolwr Tîm Pobl Hŷn yn Sir y Fflint. Roedd y sesiynau hyn yn agored i staff y trydydd sector ynghyd ag awdurdodau lleol, a staff gwasanaethau brys.

### Yr Argyfwng Costau Byw:

Cyflwynodd aelod Age Cymru Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, sesiwn fer amser cinio. Roedd croeso i'r holl asiantaethau ar draws y rhanbarth ac roedd yn codi ymwybyddiaeth o effaith yr argyfwng costau

byw ar y boblogaeth hŷn yn y rhanbarth a’r arwyddion y dylid cadw golwg amdanynt.

### Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion - Rolau a Chyfrifoldebau:

Cyflwynodd Cydlynwyr Busnes y Bwrdd Diogelu drosolwg o’r hyn y disgwylir gan aelodau panel, cadeiryddion ac adolygwyr i Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru. Hefyd fe gyflwynwyd themâu ac astudiaethau achos ar adolygiadau ymarfer a gyhoeddwyd a’r dysgu sy’n deillio o hynny.

### Gwella’r broses ddiogelu o ran plant yn cael eu brathu gan gŵn:

Cyflwyniad gan gydweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ymarferwyr amlasiantaeth.

Roedd y sesiwn yn codi ymwybyddiaeth o’r canlynol:


- asesiad risg newydd ar draws BIPBC.
- lleihau amrywiaeth mewn ymarfer ar draws safleoedd
- gwella gweithio mewn partneriaeth ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a’r heddlu
- rhannu arferion da.
- gwella ansawdd gofal.

### Sesiwn Ymwybyddiaeth Llinellau Sirol:


Wedi’i hwyluso gan Uned Troseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol y Gogledd Orllewin, gan ddarparu trosolwg byr o fodel cyflenwi cyffuriau Llinellau Sirol, gan gynnwys crynodeb o’r darlun lleol, enghreifftiau a dangosyddion nodweddiadol o gamfanteisio, a chyfeiriad at adnoddau sydd ar gael i weithwyr proffesiynol.

### Gwefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:

Yn ystod 2023-2024, mae gwefan BDGC wedi’i drawsnewid. Nod y wefan newydd yw sicrhau hygyrchedd hawdd gyda dolenni cyswllt uniongyrchol i’r adnoddau sydd fwyaf poblogaidd.




### Ystadegau gwefan:




*Sylwch fod y trawsnewidiad o'r hen wefan i'r un newydd wedi digwydd ar ddiwedd Ionawr 2024.*



Pa dudalennau a sgriniau sy'n cael y nifer fwyaf o olygfeydd?

Golygfeydd yn ôl teitl tudalen a dosbarth sgrin


| Teitl y dudalen a'r sgrin | Golygfeydd |
|---|---|
| Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | 3.5K |
| Digwyddiadau A Hyfforddiant - Gogledd Cym | 1.4K |
| Polisïau A Gweithdrefnau | 1.3K |
| Adolygiadau Ymarfer | 792 |
| Ynglŷn â Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | 670 |
| Briffiau 7 Munud | 602 |
| Am Fwrdd y plant | 442 |

Gweld tudalennau a sgriniau

## 9.0 Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y ddengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad.

### 9.1 Oedolion:

Nifer yr Adroddiadau Diogelu 2023 / 2024 a'r Categorďau o Gam-drin a Adroddwyd:




Fel mae'r tabl uchod yn dangos, mae esgeulustod yn parhau i fod ar frig y rhestr categorïau camdriniaeth a adroddir, yn enwedig hunan-esgeulustod. O ganlyniad, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad thematig o 16-18 o achosion er mwyn nodi:

a) Cydymffurfiaeth gyda phrotocol Hunan-esgeulustod Gogledd Cymru.
b) Nodi unrhyw fylchau neu unrhyw ran o'r protocol sydd angen rhagor o eglurder.
c) Galluogi Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i ymateb yn effeithiol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyfer y Polisi Cenedlaethol ar Hunan-esgeulustod pan gaiff ei gyhoeddi.

Mae achosion camdriniaeth ariannol wedi cynyddu ar draws y rhanbarth, ac yn ogystal â datblygu Canllaw Ymarfer Camdriniaeth Ariannol Gogledd Cymru y llynedd, mae arweinwyr diogelu ar draws y rhanbarth yn awr mewn cyswllt rheolaidd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Gwnaed cysylltiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dilyn eu presenoldeb yn y Grwpiau Cyflawni Ymarfer Diogelu Oedolion, lle nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod cynnydd yn yr adroddiadau am gamdriniaeth ariannol.

Mae BDOGC yn parhau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu oedolion mewn perygl, gan gynnwys y rhai sydd

mewn perygl o gamdriniaeth yn y sector cartrefi gofal. Mae'r data a dderbyniwyd i is-grwpiau'r bwrdd i'w trafod yn nodi cynnydd yn yr adroddiadau sy'n dod o'r sector cartrefi gofal. Y risgiau sydd wedi'u nodi yw dibyniaeth cartrefi ar staff asiantaeth ac adroddiadau achosion caethwasiaeth fodern sy'n digwydd yn y sector. Mae'r Bwrdd wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i hysbysu staff, comisiynwyr a sefydliadau'r trydydd sector o ran y risgiau dan sylw, mewn perthynas â recriwtio diogel a diwydrwydd dyladwy o ran ymgysylltu â gweithwyr asiantaeth. Mae'r is-grwpiau hefyd yn parhau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf a thrafodaethau rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Adran 5 - Swyddi gydag Ymddiriedaeth

Mae'r Awdurdodau Lleol yn adrodd bod cynnydd yn parhau o ran Adroddiadau Adran 5 sy'n cael eu cyflwyno i'w timau diogelu. Mae pryder o ran diffyg eglurder a chanllawiau o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru o ran Swyddi gydag Ymddiriedaeth, mae'n peri risg iddynt o ran cyfleoedd ar gyfer her gyfreithiol. Nodwyd Adran 5 fel problem barhaus ar gyfer y sefydliadau yn y mwyafrif o'r Adroddiadau Blynyddol gan Asiantaethau Partner.

Mae angen rhagor o arweiniad i sicrhau ymagwedd gyson a rhanbarthol o ran cymhwyso Adran 5 ac mae angen rhagor o wybodaeth ar gyfer asiantaethau sy'n adrodd mewn perthynas â nodi'r gwahaniaeth rhwng ymarfer gwael a chamdriniaeth/esgeulustod. Hefyd, mae diffyg dealltwriaeth o fewn y trydydd sector a'r sefydliadau cenedlaethol, o ran beth ddylai arwain at adroddiad Adran 5, a'u dyletswydd gyfreithiol i gyflwyno'r adroddiadau hynny.

Mae Uned Fusnes y Bwrdd wedi bod yn codi ymwybyddiaeth gyda sawl sefydliad er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y gofynion o ran Swyddi gydag Ymddiriedaeth, a rhagwelir pan fydd yr adolygiad o Adran 5 wedi'i gwblhau gan y Bwrdd Prosiect Cenedlaethol, y bydd rhagor o eglurder yn galluogi cyflwyno hyfforddiant ar draws y rhanbarth.

## 9.2 Plant:

Cyflwynir adroddiadau perfformiad a phrif bwyntiau Asiantaethau Partner i roi trosolwg cyflawn o unrhyw themâu a materion.

### Themâu / problemau a nodwyd:


Trwy'r grwpiau darparu lleol, nodwyd cynnydd yn nifer y brathiadau gan gŵn. Gan ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu system adrodd orfodol i'r heddlu ac asesiad risg ar eu system TGCh. Mae'r grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn datblygu canllawiau i ymarferwyr o ran diogelu Plant ac Oedolion o gwmpas cŵn peryglus. Prif nod y canllawiau hyn yw diogelu plant ac oedolion ar draws gogledd Cymru rhag yr anafiadau difrifol y gall cŵn sydd wedi'u gwahardd, sy'n beryglus, neu sy'n cael eu rheoli'n wael eu hachosi.

Mae'r grwpiau darparu lleol wedi amlygu themâu sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau hefyd. Mae gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu wedi sôn am bryderon am ddefnyddio Ketamine a'r gyfradd uchel o bobl sy'n defnyddio canabis. Gan ymateb, cafodd nodyn briffio ei gyhoeddi i ymarferwyr ynglŷn â sut mae Canabis, alcohol a sylweddau cysylltiedig sy'n iselyddion yn effeithio ar yr ymennydd a sut gallant effeithio ar allu unigolyn i wneud penderfyniadau doeth. Mae angen i ymarferwyr gofio, er bod gan oedolion sy'n

defnyddio canabis sgiliau da yn y bôn o ran magu plant – efallai na fyddant yn gallu eu defnyddio'n gyson.

## Y Gofrestr Amddiffyn Plant:

Derbyniwyd data gan yr is-grŵp cyflawni ymarfer plant mewn perthynas â nifer y plant sydd ar y Gofrestr Diogelu Plant yn ystod 2023/2024.





Y prif gategori o gam-drin a adroddir gan bob awdurdod lleol yw:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn/Conwy/Sir Ddinbych: | Emosiynol/Seicolegol |
| Cyngor Gwynedd/ Wrecsam : | Emosiynol |
| Sir y Fflint: | Esgeulustod / Emosiynol + Esgeulustod |

## Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant:

Mae gwaith ar y gweill i gydgrynhoi'r argymhellion cenedlaethol a wnaed gan Adolygiad Cyflym AGC o Drefniadau Amddiffyn Plant, Argymhellion IICSA ac argymhellion adolygiad ymarfer Plentyn T gydag argymhellion cenedlaethol gan Adolygiad Thematig NISB o 22 Adolygiad Ymarfer Plant. Y nod fydd datblygu cynllun gweithredu sy'n cefnogi ymagwedd genedlaethol gydlynol o fynd i'r afael â'r argymhellion o bob un, mae rhai ohonynt yn gorgyffwrdd.

## Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC):



Mae nifer y dysgwyr sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref yn parhau i gynyddu. Mae yna nifer sylweddol o blant nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd Osgoi'r Ysgol ar Sail Emosiwn (EBSA) mewn perthynas â materion yn sgil y pandemig yn aml, ac mae rhestrau aros maith i blant a phobl ifanc gael eu gweld, gydag ychydig iawn o weithredu o ran sut rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn er mwyn eu cael i ddychwelyd i addysg.

Cydnabyddir bod rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd yn ariannol, felly mae'r Gwasanaethau Addysg wedi cyfeirio rhieni sydd angen cefnogaeth at y dewis rheoli dyledion trwy Parent Pay.

## 10. Y nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardal y Bwrdd Diogelu.

Ni wnaed cais am unrhyw Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn Rhanbarth Gogledd Cymru rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2024.

## 11. Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu

### 11.1 Oedolion:

Rydym yn parhau i ymgymryd â gwaith gyda'r Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol o ran ymgysylltu gydag Oedolion mewn Perygl. Rydym hefyd wedi gofyn bod canllawiau ymarfer drafft y Bwrdd yn cael eu rhannu gydag oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chefnogaeth er mwyn iddynt gyflwyno sylwadau arnynt.

Rydym yn datblygu canllaw ymarferol penodol ar brofiadau Bywyd. Mae'r canllaw yn cael ei ddatblygu gan bartneriaid er mwyn galluogi ymarferwyr i ystyried profiad yr oedolyn a sicrhau bod profiad bywyd yr oedolyn yn parhau yn rhan ganolog o unrhyw gamau gweithredu a gymerir i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl.
Bydd y canllaw ar gael i'r holl weithwyr proffesiynol (mae hyn yn cynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr) sydd â chyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol (h.y., sy'n gweithio gyda theuluoedd / gofalwyr o bosib) gydag oedolion mewn perygl; ac sydd â chyfrifoldebau ar gyfer diogelu a hyrwyddo eu lles.

Mae'r canllawiau'n nodi y dylai nodiadau achos adlewyrchu'r hyn sy'n hysbys am brofiad bywyd yr oedolyn, sut yr ystyrir hyn yn ystod yr asesiad, a'i effaith ar y penderfyniadau a wneir. Dylid cofio diweddaru cofnodion achos er mwyn i eraill weld pa waith sydd wedi'i gyflawni gyda'r defnyddiwr gwasanaeth.

Cofiwch:
- Defnyddiwch ddyfyniadau uniongyrchol lle bo modd.
- Dylai'r nodiadau ganolbwyntio ar y ffeithiau sy'n berthnasol i'r achos.
- Lle bo angen barn broffesiynol, dylid nodi hynny a'i gyfiawnhau.

Rydym hefyd yn sicrhau bod archwiliadau ymarfer a gynhelir yn nodi a oes tystiolaeth o brofiadau bywyd yr oedolyn mewn perygl.

## 11.2 Plant:

Mewn perthynas ag ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, rydym yn gweithio gyda phartneriaethau diogelu eraill yn y rhanbarth.

Enghraifft o hyn yw'r gwaith ymgynghori ar Strategaeth Trais Difrifol Rhanbarthol. Cynhaliwyd Arolwg Trais Difrifol Plant a Phobl Ifanc Gogledd Cymru yn 2023 i gasglu safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc yn ymwneud â thrais yng Ngogledd Cymru.

Hefyd, yn ddiweddar mae'r Bartneriaeth wedi cynnal Arolwg Plant a Phobl Ifanc, gyda 377 o ymatebwyr. Mae'r arolwg yn gymorth i fonitro ymdeimlad y plant a'r bobl ifanc o ddiogelwch yng Ngogledd Cymru, ynghyd â nodi amlygrwydd materion penodol a safbwyntiau ar drais difrifol.

Un o'r cwestiynau yn yr arolwg oedd ymdeimlad y cyfranogwyr o ddiogelwch yn eu cymuned leol. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr (81%) eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned leol (mwyafrif yr amser o leiaf), 14% wedi nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel weithiau, a 5% wedi nodi nad ydynt yn teimlo'n ddiogel.

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt erioed wedi bod yn ddioddefwyr, neu wedi gweld neu gyflawni trais, nododd 20% eu bod wedi bod yn ddioddefwyr, 29% wedi gweld trais, ac 1% wedi nodi eu bod wedi cyflawni gweithred, neu weithredoedd, o drais. Darparodd ymatebwyr yr arolwg amrywiaeth o safbwyntiau pan ofynnwyd iddynt be yw prif achos trais.

Rwy'n credu, mewn rhai achosion, y bydd pobl yn cyflawni gweithred o drais am eu bod wedi profi hyn yn ifanc. Boed yn drais yn y cartref, ei weld yn y cartref neu ei weld ar-lein neu'n bersonol. Os ydynt yn cael eu dysgu'n anghywir yn ifanc, yna efallai na fyddent yn deall dulliau di-drais o ymdrin â sefyllfaoedd." -Ymatebwr yr Arolwg

"Mae nifer yn ymddwyn fel hyn, oherwydd pwysau gan gyfoedion, a bywyd y cartref" - Ymatebwr yr Arolwg.

"Oherwydd eu bod wedi meddwi neu'n flin, efallai eu bod angen siarad â rhywun am eu problemau er mwyn ei osgoi. " - Ymatebwr yr Arolwg.

"Ofn, eisiau bod yn 'boblogaidd', i ffitio i mewn - pwysau gan gyfoedion" - Ymatebwr yr arolwg.

## 12. Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu.

### Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:

Mae'r diweddariadau a'r Briff 7 munud a ddatblygwyd gan dîm SUSR yn cael eu rhannu yn yr holl grwpiau rhanbarthol a'u rhoi ar y wefan.

Mae SUSR yn eitem sefydlog ar raglenni'r Byrddau, Grwpiau Adolygu Ymarfer, Grwpiau Cyflawni a Grŵp Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu Diogelu.

### Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol:

Mewn perthynas â'r Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol, mae Cadeirydd Rhanbarthol Datblygu'r Gweithlu ac is-grŵp Hyfforddiant Diogelu'n rhan o'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ac wedi arwain y gwaith yn y rhanbarth.

Cynhaliwyd nifer o weithdai yn yr ardal i hyrwyddo'r safonau cenedlaethol.

Rydym wedi cydnabod fod gennym waith pellach i'w wneud mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau a bod angen cefnogi sefydliadau ar draws y rhanbarth i gael mynediad at fwy o

gyfleoedd hyfforddi ar gyfer Lefel B a Lefel C.

Rydym wedi nodi bwlch yn narpariaeth Hyfforddiant Diogelu Oedolion Amlasiantaeth Lefel C.

Yn 24/25 rydym yn gobeithio lansio modiwl Hyfforddiant Diogelu Oedolion Amlasiantaeth sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

1. Deall y fframweithiau cyfreithiol i gefnogi proses ymholiad diogelu.
2. Deall cyfrifoldebau asiantaeth wrth ddatblygu ymateb amlasiantaeth, gan gynnwys dulliau cyfathrebu effeithiol gydag asiantaethau eraill a'r unigolyn mewn perygl.
3. Deall proses Ymchwiliad Adran 126 a rolau a chyfrifoldebau asiantaethau partner.
4. Ymarfer datblygu cylch gorchwyl ar gyfer Ymchwiliad.
5. Archwilio cymhwyso egwyddorion Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Ymchwiliad a chadw'r person yn ganolog drwy'r cyfan.
6. Cymhwyso asesiad / dadansoddiad risg, i gefnogi gwneud penderfyniadau a llunio casgliadau.
7. Ymchwiliadau Diogelwch ac Ymchwiliadau'r Heddlu.
8. Defnyddio chwilfrydedd proffesiynol yng nghyd-destun ymchwiliad diogelu amlasiantaeth.

### Argymhellion o'r Adroddiad IICSA:

Yn ystod y flwyddyn, mae'r argymhellion o adroddiad IICSA wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd a'r Grwpiau Cyflawni Lleol. Trwy waith gyda NISB a Phrifysgol Metropolitan Manceinion ynghylch Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol rydym yn gobeithio sicrhau ein bod mewn sefyllfa i weithredu'r argymhelliad o ran casglu data ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

### Dysgu o Adolygiadau Ymarfer:

Mewn ymateb i'r dadansoddiad thematig gan Brifysgol Metropolitan Manceinion o adolygiadau ymarfer plant cenedlaethol, mae'r Bwrdd wedi llunio cynllun gweithredu i ymateb i ganfyddiadau

allweddol y chwe thema a nodwyd. Er enghraifft, mewn perthynas â Thema 2 - Ymatebion Amlasiantaeth - rydym wedi nodi'r camau gweithredu canlynol sydd wedi'u cyflawni:

- Datblygu Canllawiau Chwilfrydedd Proffesiynol a darparu hyfforddiant.
- Gwaith a wnaed yn rhanbarthol ar brofiadau bywyd y plentyn ond mae rhagor o waith i'w wneud.
- Gwaith presennol ar ddatblygu canllaw ymarfer o ran Diogelu Trosiannol.

## Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn:

Mae'r cynllun yn nodi'r mesurau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cyflwyno ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu diogelu rhag pob math o gamdriniaeth, ac i'w hatal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth. Mae'r cynllun ar gael ar wefan BDGC ac mae wedi'i gynnwys fel eitem ar raglen y Bwrdd a'r grwpiau cyflawni lleol.

## Diogelu Plant ar-lein, Ymchwil:

Mae gwybodaeth ar gael ar wefan BDGC mewn perthynas â niwed ar-lein. Mae Ofcom wedi cyhoeddi tri adroddiad ymchwil newydd ar niwed ar-lein, fel rhan o'u cyfres ar ddiogelu plant ar-lein.

Mae'r adroddiadau'n ymdrin â: deall llwybrau o ran cynnwys treisgar ar-lein ymysg plant; profiadau plant sy'n dod ar draws cynnwys ar-lein sy'n hyrwyddo anhwylder bwyta, hunan-niweidio a hunanladdiad; a nodweddion allweddol a phrofiadau o seiberfwlio ymysg plant yn y DU.

## Paid ag ofni bod yn anghywir - beth os wyt ti'n iawn? -'Gwnewch yr alwad'.

Roedd yr ymgyrch gan Lywodraeth Cymru a lansiwyd gan Ddirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, yn annog unrhyw un sy'n poeni am blentyn neu berson ifanc yn eu teulu neu eu cymuned, i gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol neu ffonio 101. Mae'n deillio o ddysgu o ymarferion o ran pryd a sut i roi gwybod am bryderon diogelu. Rhannwyd negeseuon drwy'r wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol. Mae fideo'r Bwrdd 'Gweld Rhywbeth, Dweud Rhywbeth' hefyd wedi'i hyrwyddo a'i rhannu i atgyfnerthu'r neges.

## Canllaw 10 cam ar Rannu Gwybodaeth i Ddiogelu Plant:

Rhannodd Llywodraeth Cymru'r adnodd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n cynorthwyo i ddarparu sicrwydd i sefydliadau ac ymarferwyr ledled Cymru nad yw diogelu data yn rhwystro rhannu gwybodaeth. Cafodd ei rannu drwy'r Bwrdd a'r grwpiau cyflawni diogelu lleol ac mae'r canllaw 10 cam yn cyflwyno neges ganolog glir lle bo unigolion yn pryderu am ddiogelwch plant, dylent rannu gwybodaeth i'w diogelu. Mae'r trafodaethau wedi parhau gyda'r holl asiantaethau o ran y negeseuon am bwysigrwydd rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn.

## Ymgyrch 'Get Safe Online':

Rhannwyd negeseuon yr ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan a'u rhannu drwy'r grwpiau cyflawni i'r holl asiantaethau a sefydliadau'r trydydd sector.

## Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru:

Rhennir ymgynghoriadau ledled y rhanbarth, ac fe anogir pawb i ymateb yn unigol, yn ogystal â chyfrannu at ymateb BDGC.

## 13. Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol.

### Cyhoeddi Canllawiau Statudol Addysg Ddewisol yn y Cartref:

Datblygwyd canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o ran plant sy'n derbyn addysg yn y cartref. Mae'r canllawiau statudol yn gymorth i sicrhau bod yr holl blant yn derbyn cefnogaeth i gael mynediad at wasanaethau a'r buddion sydd fel arfer ar gael i blant a phobl ifanc yn addysg y brif ffrwd.
Nodwyd y canllawiau ym Mwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a'r grwpiau cyflawni lleol, gan sicrhau bod cynrychiolwyr Addysg yn ymwybodol ohonynt. Mae'r negeseuon a'r dolenni allweddol i'r ddogfen wedi'u nodi ar wefan y Bwrdd.

### Canllawiau ar Leihau Arferion Cyfyngol mewn Lleoliadau Gofal Plant, Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Rhannwyd y canllawiau drwy'r Bwrdd a'r grwpiau cyflawni lleol, ac fe roddwyd y dolenni i'r canllawiau a'r negeseuon allweddol ar y wefan ac ar gyfryngau cymdeithasol.

## 14. Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu.

### Datblygu Adnodd Camfanteisio ar Blant - Yn cynnwys Camfanteisio'n Droseddol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant:

Mae canllawiau ymarfer arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer pecyn gwaith penodol ar gamfanteisio ar blant wedi'i ohirio. Fel Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, byddai'n well gennym gael cytundeb cenedlaethol ar becyn gwaith amlasiantaeth yn hytrach nag asiantaethau / rhanbarthau unigol yn datblygu gwahanol becynnau gwaith. Byddai'r Bwrdd yn awyddus gweld y gwaith yn cael ei gyflawni yn 24-25.

### Systemau Gwybodaeth Rheoli:

Mae aelodau'r Bwrdd wedi nodi risgiau posibl ar gyfer Awdurdodau Lleol o ran bod angen canfod system i ddisodli'r System TG Gofal Cymdeithasol presennol (WCCIS). Mae pedwar o'r chwe awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn defnyddio WCCIS ar hyn o bryd. Pan gynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ynglŷn â gweithredu WCCIS, un o'r cymhellion arfaethedig ar gyfer y gwaith oedd i gefnogi gwell integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n amlwg o'r dysgu o'r Adolygiadau Ymarfer nad yw hyn wedi'i gyflawni.

### Hunan–esgeulustod a Chelcio:

Er nad yw'n ymwneud â'r agenda diogelu'n unig, mae mwy a mwy o achosion yn cael eu hadrodd a'u datblygu drwy ddiogelu pan fo cyfyngder mewn achosion a lle bo asiantaethau'n pryderu nad yw asiantaethau partner yn ymgysylltu â'r

broses.  Nodwyd bod hunan-esgeulustod a chelcio yn cael eu hadrodd yn rheolaidd drwy adroddiadau oedolion mewn perygl, yn aml heb fawr o wybodaeth gan yr asiantaeth sy'n adrodd.

Mae'r ymarfer presennol yn golygu bod yr awdurdod lleol yn derbyn cyfrifoldeb arweiniol am yr holl bryderon hunan-esgeulustod a chelcio.  Mae eisoes wedi'i nodi bod diffyg dealltwriaeth o egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac nad yw asiantaethau'n cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru o ran rhannu gwybodaeth.

## 15. Enghraifft Arfer Da:

Gofynnwyd i bob asiantaeth ddarparu astudiaeth achos arferion da, i'w chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

### Cyngor Sir Ynys Môn:

Mae Mr A yn ŵr 64 oed sy'n byw ar ei ben ei hun yn ei gartref, a chredir mai cartref y teulu ydoedd. Roedd rhieni Mr A yn byw yno nes iddyn nhw farw. Mae ymarferwyr yn credu efallai bod gan ei rieni dueddiadau i gelcio hefyd. Disgrifir Mr A fel dyn clyfar iawn ac nid oes unrhyw bryderon mewn perthynas â'i allu. Mae'n deall y peryglon i'w hun ac yn hapus i dderbyn y rhain. Disgrifiodd Mr A ei hun fel 'meudwy unig' a nododd nad yw'n mwynhau cwmni pobl eraill. Mae'n dibynnu ar lyfrau i gadw cwmni iddo, a bydd yn aml yn cyfeirio at lyfrau fel ei 'ffrindiau'.
Mae'r ymarferydd gwasanaethau oedolion wedi bod yn gweithio gyda Mr A am oddeutu 18 mis. I ddechrau, roedd Mr A yn gyndyn o roi mynediad i weithwyr proffesiynol i'w gartref. Trefnodd y gweithiwr cymdeithasol i gwrdd ag ef yn y feddygfa, ac ar ôl datblygu perthynas ddibynadwy gydag ef, caniataodd iddi ymweld â'i gartref. Roedd y protocol hunan-esgeuluso a chelcio ar waith ar gyfer Mr A. Roedd y Gwasanaeth Tân ac Iechyd yr Amgylchedd hefyd yn gysylltiedig â'r achos, ond nid oedd Iechyd yr Amgylchedd yn gallu rhoi unrhyw bwerau ar waith yn yr achos hwn gan fod y pryderon yn ymwneud â chelcio sych yn unig.

Pan gwblhawyd asesiad ymarferydd gyda Mr A yn ei gartref, nodwyd bod bob ystafell yn cyrraedd lefel 7/8 yn wreiddiol, a chredwyd bod rhai ohonynt yn cyrraedd lefel 9 ar y raddfa gelcio. Nodwyd bod perygl o dân yng nghartref Mr A gan ei fod yn celcio llyfrau, papur a theganau yn bennaf. I ddechrau, roedd Mr A yn gyndyn o glirio. Fodd bynnag, yn dilyn sawl mis o gefnogaeth barhaus gan y gweithiwr cymdeithasol, cytunodd Mr A i dderbyn gwasanaeth i'w helpu i glirio ei gartref. Y trobwynt i Mr A oedd ystyried y peryglon i eraill, yn arbennig y perygl tân a allai achosi niwed i gymdogion.

Nid oedd Mr A yn gallu fforddio gwasanaeth glanhau, ond llwyddodd y gweithiwr cymdeithasol i gael grant iddo i dalu am gefnogaeth arbenigol ar gyfer clirio. Gyda chytundeb Mr A, rhoddwyd gwasanaeth clirio ar waith am bythefnos. Yn y cyfnod hwn, llwyddodd Mr A i glirio'r tŷ a llenwi 2 sgip. Yn dilyn hyn, cynhaliodd yr ymarferydd asesiad arall a nododd fod bob ystafell o fewn yr eiddo bellach ar lefel 1/2/3. Mae cyflwr cartref Mr A wedi gwella'n sylweddol. Cliriwyd a glanhawyd bob ystafell oni bai am yr ystafell ymolchi. Nid oedd ar Mr A eisiau i neb fynd i'r ystafell ymolchi a pharchwyd hynny. Mae'r tîm gwaith cymdeithasol yn parhau i gefnogi Mr A, a nodwyd 5 wythnos ar ôl y gwaith clirio, bod y tŷ'n cael ei gynnal ac yn parhau i fod mewn cyflwr addas i rywun fyw yno.

Mae Mr A wedi cytuno i weithio gyda gweithwyr cefnogi i gyllidebu, rheoli llythyrau a gwaith papur. Rhannwyd gwybodaeth ynghylch gwasanaeth glanhau gyda Mr A. Mae'n ystyried y gefnogaeth hon. Mae'r ymarferydd a gefnogodd Mr A â'r gwaith clirio'n parhau i'w ffonio'n rheolaidd. Roedd yr ymarferydd a gefnogodd Mr A â'r gwaith clirio'n gallu darparu cefnogaeth arbenigol iddo yn ystod y broses o glirio gan ei bod yn gwnselydd hyfforddedig. Nodwyd bod y

broses o glirio wedi bod yn anodd iawn i Mr A, ond gyda chefnogaeth arbenigol, llwyddodd i ymdopi gyda hyn.

Roedd Mr A wedi gwrthod sawl cynnig gan y gweithiwr cymdeithasol ar gyfer atgyfeiriad at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

Roedd Mr A yn casglu teganau a ffigurau Marvel (dyblygiadau) ac yn awyddus i roi'r rhain at achos da. Gyda chaniatâd Mr A, rhoddwyd y rhain i ysbyty lleol (ward plant) ac elusen ganser leol. Nid yw Mr A yn dymuno derbyn cefnogaeth barhaus gan weithwyr cymdeithasol ond mae wedi cytuno i adolygiad blynyddol. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gysylltu â Mr A yn unol â'i ddymuniadau.

Mae'r achos hwn wedi amlygu gwaith amlddisgyblaeth da. Mae'n dangos fod ar ymarferwyr angen amser i weithio gydag unigolion sy'n celcio ac yn hunan-esgeuluso i'w cefnogi drwy newidiadau sylweddol yn eu bywydau. Cymerodd 12 mis i Mr A gytuno i weithio gyda'r gweithiwr cymdeithasol a sawl mis i'r newid ddigwydd.

**Rhannir y lluniau isod gyda chaniatâd Mr A**








## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

**Sicrwydd Ansawdd Diogelu ar gyfer Adolygiadau**

Mae Tîm Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd y Bwrdd Iechyd wedi datblygu Grŵp Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR), Adolygiadau Ymarfer Oedolion (APR) ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR).

Mae'r grŵp yn monitro gweithgarwch ar draws Gogledd Cymru i sicrhau fod BIPBC yn gallu cynnig sicrwydd o ran gwersi a nodwyd.

Mae'r Grŵp Sicrwydd Ansawdd yn cwrdd yn fisol i:-

- Nodi unrhyw wersi cynnar a ddysgwyd ar gyfer y bwrdd iechyd a chytuno ar unrhyw gamau hanfodol.

- Nodi unrhyw heriau/llithriad o fewn y broses.
- Nodi a rhannu arferion da i gefnogi dysgu.
- Nodi themâu a thueddiadau allweddol i gefnogi camau i'r dyfodol.
- Casglu data cytunedig.
- Ymateb i unrhyw sbardunau ar gyfer uwchgyfeirio mewnol i'r Cyfarwyddwr Diogelu a Gwarchod y Cyhoedd.
- Ymateb i unrhyw sbardunau ar gyfer uwchgyfeirio mewnol ar unwaith, gan sicrhau bod y gweithgaredd hwn yn dilyn trefniadau Llywodraethu ac Ansawdd mewnol a nodwyd yn Fframwaith Adrodd ar Ddiogelu BIPBC.

Mae'r swyddogaethau allweddol yn cynnwys:-

- Ymgorffori gwersi a nodwyd mewn pecynnau hyfforddiant perthnasol.
- Datblygu sesiynau briffio 7 munud perthnasol.
- Dylanwadu ar bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau lleol.
- Sicrhau fod unrhyw wybodaeth yn cael ei huwchgyfeirio a'i rhannu'n brydlon.
- Cyfathrebu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Datblygu arbenigedd o ran ymgysylltu gyda CPR/APR/DHR a'u swyddogaeth.
- Cydweithio gyda'r Grŵp Gorchwyl Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu i sicrhau fod gwersi a ddysgwyd yn cael eu cynnwys ym mholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau fod tudalen Ddiogelu'r Bwrdd Iechyd yn adlewyrchu gwersi a ddysgwyd o CPR/APR/DHR.

Drwy'r gweithgarwch uchod, mae'r Grŵp Sicrwydd Ansawdd yn gweithredu fel enghraifft o ddysgu amlasiantaeth ac yn sefydlu sylfaen effeithiol ar gyfer dysgu.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

**Cefndir**

Syrthiodd plentyn 18 mis oed allan o'i phram tra roedd hi yng ngofal ei thad a oedd wedi meddwi'n llwyr ar y pryd.  Roedd y plentyn yng ngofal ei thad gan fod y fam dan ddylanwad sylweddau.  Ni wnaeth yr heddlu ystyried Gorchymyn Gwarchod yr Heddlu gan nad oedd y rhieni mewn stad i ofalu am eu plentyn pan roedd hi'n barod i gael ei rhyddhau o'r ysbyty. Ar nodyn cadarnhaol, aseswyd ei nain ar ochr ei thad fel gofalwr amgen a rhyddhawyd y plentyn i'w gofal hi wrth i faterion mewn perthynas â'r broses amddiffyn plant barhau.

**Ymyrraeth**

Rhoddwyd y plentyn ar gofrestr amddiffyn plant Conwy dan y categori 'esgeulustod', a darparwyd ymyraethau i'r rhieni gan y tîm cryfhau teuluoedd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig.  Yn anffodus, parhaodd y rhieni i ddefnyddio sylweddau, a daeth y perygl o gam-drin emosiynol yn fwy amlwg gan nad oeddent yn gallu ymrwymo i dreulio amser teuluol gyda'u merch.  Roedd pryderon hefyd bod y rhieni'n smalio cydymffurfio o ran perthynas y rheini, gan honni eu bod yn dal i fod mewn perthynas, fodd bynnag, roedd adroddiadau cyfryngau cymdeithasol gan y nain ar ochr y tad yn nodi fel arall.  Datblygwyd y mater i Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus er mwyn sicrhau bod y rhieni'n cael gwybod gan eu

cyfreithwyr beth oedd angen ei newid a'i gynnal er mwyn i'r plentyn fedru dychwelyd i'w gofal nhw fel rhieni.  Drwy gydol y cyfnod hwn, arhosodd y plentyn yng ngofal ei nain ar ochr ei thad, gyda'r teulu cyfan yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r aelwyd a galluogi'r nain i barhau i weithio.

**Canlyniad**

Cyflwynwyd Gorchymyn Gofal Dros Dro, gan nad oedd yr un o'r rhieni mewn sefyllfa i ofalu am eu merch, ac nid oeddent yn arfer eu cyfrifoldebau fel rhieni'n effeithiol.  Ar nodyn cadarnhaol, roedd y nain ar ochr y tad yn awyddus i sicrhau bod ei hwyres yn aros yn y teulu, ac roedd arni hi eisiau diogelu'r berthynas hon drwy Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig. Roedd y fam yn cydnabod nad oedd hi'n gallu diogelu ei merch ac yn cytuno y dylai ei merch dderbyn gofal sefydlog gan ei nain ar ochr y tad.  Yn anffodus, nid oedd tad y plentyn yn gallu cydnabod ei fod yn parhau i fod mewn sefyllfa wael.  Roedd yn ymddwyn yn dreisgar tuag at ei fam, ac nid oedd yn gallu derbyn ei bod yn newid ei bywyd er mwyn blaenoriaethu a gofalu am ei blentyn.  Roedd yn sefyllfa emosiynol a chymhleth iawn i'r nain; fodd bynnag, cafodd ganmoliaeth gan y Beirniad am ei hymrwymiad i'w hwyres a chyflwynwyd Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig o ganlyniad.

## Cyngor Sir Ddinbych:

**Grwpiau Sgiliau DBT**

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig wedi bod yn darparu ymyrraeth therapiwtig uchel ei barch, Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT) am bron i chwe blynedd bellach.  Mae DBT yn brofiad yn seiliedig ar sgiliau sy'n caniatáu i rieni a gofalwyr ddatblygu sgiliau bywyd craidd sy'n helpu unigolion i reoli emosiynau cryf, rheoli sefyllfaoedd anodd a phrofi perthynas fwy caredig â nhw eu hunain ac eraill.  Mae'r grŵp yn cynnwys pedair cyfres o sgiliau; Ymwybyddiaeth Ofalgar (cynyddu hunanymwybyddiaeth i helpu unigolyn i ymdopi); Effeithlonrwydd Rhyngbersonol (gallu cyfathrebu gyda phobl yn fwy effeithiol); Rheoli Emosiynau (dysgu sut i ddeall emosiynau a'u heffaith ar ymddygiad) a Goddef Trallod (datblygu'r gallu i ddioddef straen ac ymdopi'n fwy effeithiol mewn argyfwng).  Gyda'i gilydd, mae'r sgiliau hyn yn ategu at fywyd gwerth ei fyw.

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig wedi bod yn llwyddiannus iawn drwy weithio gyda dynion sy'n dadau ac yn ofalwyr ac mae Grŵp DBT i ddynion bellach yn rhan o gynnig y DBT.

Ar gyfer rheini a gofalwyr sydd o bosibl yn cael trafferth mynychu'r grŵp, gellir cynnig sgiliau DBT 1:1 fel ffordd o ddatblygu eu hyder i ymuno â grŵp yn y dyfodol, yn arbennig gan fod y negeseuon gan fynychwyr yn amlygu natur bwerus cwmni eraill i ddilysu cynnydd a rhwystrau posibl i gydnabod a dathlu cryfderau personol.

## Sir y Fflint:

Llwyddodd Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint i sicrhau cyllid grant i sefydlu prosiect Ochrgamu Gweithredu dros Blant yn Sir y Fflint.  Mae'r prosiect yn ceisio dargyfeirio pobl ifanc rhag cael eu tynnu i mewn i fywyd o droseddu cyfundrefnol difrifol.  Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth wedi'i thargedu i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed drwy gefnogaeth

un-i-un ddwys, mentora cymheiriaid, addysg, a hyfforddiant cyflogaeth. Mae'r prosiect yn defnyddio 'mentoriaid cymheiriaid' fel modelau rôl hygyrch i bobl ifanc sydd eisoes wedi gwrthod mathau eraill o gefnogaeth.

Astudiaeth Achos

Mae Mark wedi bod yn gysylltiedig ag oedolion yn yr ardal leol yng Nglannau Mersi sy'n camfanteisio arno'n droseddol i ddefnyddio a dosbarthu cyffuriau yn y gorffennol. Mae gan Mark anghenion cymhleth sy'n golygu ei fod yn ymddiried yn bobl ac yn cael ei ddylanwadu'n hawdd, mae hefyd yn ymddwyn yn eratig o bryd i'w gilydd. Mae'r nodweddion hyn yn golygu ei fod yn agored i gamfanteisio troseddol neu rywiol.

Nid oes gan Mark lawer o hunanhyder, mae wedi dioddef bwlio difrifol a sawl ymosodiad. Mae'n crefu am ymdeimlad o berthyn a chyfeillgarwch, sydd eto'n ei wneud yn agored i gamfanteisio gan grwpiau trosedd cyfundrefnol yn sgil yr anghydbwysedd mewn grym.

Drwy'r prosiect Ochrgamu, mae Mark wedi:

- datblygu perthynas gadarnhaol gyda'i fentor cymheiriaid
- mynychu 3 awr o ddarpariaeth addysgol amgen
- mynychu sesiynau Bocsio rheolaidd a'r gampfa
- ymgysylltu â'i gyfarfodydd â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid / Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ac yn gweithio i ddatblygu sgiliau bywyd.

Mae ei fentor cymheiriaid wedi mynychu dadansoddiad gyda seicolegydd sydd wedi pennu bod gallu cymdeithasol a meddyliol Mark ar lefel plentyn llawer iau (iau na 10 oed). Mae hyn wedi llywio'r ffordd y mae gwasanaethau'n ymgysylltu gyda Mark, ac adlewyrchir hyn yn ei gynllun gwasanaeth.

Mae Mark ar hyn o bryd mewn lleoliad preswyl unigol ac mae Ochrgamu'n ymgysylltu gyda staff i ddarparu cefnogaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

## Cyngor Gwynedd:

Roedd DERWEN (Gwasanaethau Plant Arbenigol) yn ymwybodol o Blentyn A ac roedd y Tîm Plant a Theuluoedd yn ymwybodol o Blentyn B (brawd/chwaer). Roedd pryderon cynyddol ynglŷn â gallu'r rhieni. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys amodau gwael yn y cartref, diffyg dealltwriaeth o anghenion datblygiadol, gan gynnwys anghenion iechyd ac addysg. Roedd y pethau hyn i gyd yn arwyddion o esgeulustod.

Roedd yn amlwg bod tosturi a dealltwriaeth o anghenion cystadleuol y plant; yn arbennig ar gyfer Plentyn A a oedd ag anghenion ychwanegol a chymhleth. Roedd yn amlwg hefyd nad oedd Cynllun Gofal a Chymorth yn ddigon i fynd i'r afael â'r pryderon cynyddol. Roedd ymdrechion sylweddol eisoes wedi'u gwneud i gefnogi'r teulu a'u helpu i wneud newidiadau.

Roedd y pryderon hyn yn bodloni'r trothwy a thrafodwyd y plant mewn Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant Gychwynnol. Gan gadw at natur gydweithredol y cynadleddau, roedd cyfle i asiantaethau drafod y pryderon â'r teulu mewn modd gonest a chadarn. Daeth i'r amlwg yn y Gynhadledd nad oedd y tad yn ymwybodol o ymdrechion yr asiantaethau i ymgysylltu â'r teulu.

Daeth i'r amlwg hefyd bod y fam wedi bod yn anonest gyda gweithwyr i ryw raddau, a oedd yn cyfrannu at lefel y risg asesedig i'r plant.

Gweithiodd y Gynhadledd gyda'r teulu i rannu gwybodaeth gan bob asiantaeth a sefydlu barn y teulu ynghylch y peryglon yr oedd y plant yn eu hwynebu. Yn unol â'r ECP, daethpwyd i gytundeb gyda'r teulu ynghylch beth oedd angen newid. Defnyddiwyd hyn fel sylfaen ar gyfer y Cynllun Amddiffyn Plant a luniwyd mewn partneriaeth â'r teulu.

Roedd asiantaethau'n cydweithio gyda'i gilydd a'r teulu i sefydlu dull y gobeithiwyd fyddai'n hyrwyddo newid i gadw'r plant yn ddiogel.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

Drwy'r cysylltiadau rhwng Diogelu Oedolion ac Un Pwynt Mynediad (UPM Oedolion), mae'r Tîm Diogelu wedi gallu darparu cyngor a chefnogaeth i unigolyn a oedd wedi bod mewn perthynas gam-driniol gydol oes. Roedd yr unigolyn dan sylw wedi dioddef rheolaeth drwy orfodaeth a cham-drin emosiynol ers dechrau eu perthynas. Drwy'r gefnogaeth a ddarperir gan y Tîm UPM Oedolion, magodd yr unigolyn ddigon o hyder i estyn allan am gefnogaeth ychwanegol. Nodwyd llety brys, ac ymyrrodd y Tîm Diogelu Oedolion gan nad oedd gan yr unigolyn yma fynediad o gwbl at eu harian na'u dogfennau adnabod personol. Drwy gysylltiadau a wnaed yng Ngrŵp Cyflawni Diogelu Gogledd Cymru, cysylltodd y Tîm Diogelu gyda chynrychiolydd o'r Adran Gwaith a Phensiynau, a oedd yn gallu olrhain manylion eu cyfrif banc ar y cyd, ail-gyfeirio eu pensiwn personol o'r cyfrif ar y cyd a threfnu bod yr unigolyn yn derbyn eu harian eu hunan am y tro cyntaf ers dros 60 mlynedd. Dywedodd yr unigolyn yn eu hadborth mai eu noson gyntaf yn eu llety diogel oedd y tro cyntaf yn eu bywyd priodasol iddynt deimlo'n ddiogel, ac mae hynny o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd.

Mae'r ymarfer da hwn yn dystiolaeth o waith partneriaeth (mewnol ac allanol), gweithio mewn modd dynamig a chydweithredol, yn ogystal â defnyddio adnoddau a chysylltiadau i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.

## Heddlu Gogledd Cymru:

Operation Makesafe. Addysg a hyfforddiant i staff mewn gwestai lleol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar blant. Mae canlyniadau cadarnhaol yn y llys yn dangos ymrwymiad yr heddlu i erlyn unigolion sy'n achosi niwed yn ein cymunedau.

Defnyddir trefniadau amlasiantaeth ar draws yr heddlu i'w galluogi i rannu gwybodaeth yn amserol a hyrwyddo penderfyniadau cymesur ac ymyrraeth amserol. Mae HGC wedi cofnodi canlyniadau sylweddol o ran troseddau cam-drin rhywiol a cham-drin domestig yn y llys.

## Carchar EM a Gwasanaeth Prawf:

Mae **'Ar Brawf'** yn rhaglen ddogfen Gymraeg sy'n cynnig mewnwelediad o weithredoedd mewnol swyddfa brawf Caernarfon yng Ngogledd Cymru. Mewn cymuned sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, roedd y gyfres yn cynnig cipolwg i ni o fywydau'r staff prawf yn ogystal â'r unigolion dan oruchwyliaeth. Gydag is-deitlau Saesneg ar gyfer hygyrchedd, mae'r rhaglen ddogfen yn amlygu'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag adsefydlu ac ymdrechion staff prawf i gefnogi unigolion ar eu siwrnai tuag at ddychwelyd i gymdeithas. Gellir gwylio'r gyfres ar **S4C** a **BBC iPlaye**